**LLANFAIR YN NEUBWLL CYNGOR CYMUNED**

---

**Minutes o Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm**, **Nos Fawrth 18 Hydref 2022**

**Presennol:** Cynghorydd Siân Enfys Jones – Cadeirydd
**Y Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Lowri Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Einir Thomas a Gareth Thomas.

Hefyd yn bresennol: - Cynghorydd Sir Ken Taylor.
Mai Owen - Clerc / Swyddog Cyllid Cyfrifol.

**1.** **Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Gordon Owen a Dyfed Williams

**2.** **Datganiad o Ddiddordeb** – dim.

**3.** **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Derbyniwyd cofnodion 20 Medi 2022 fel rhai cywir (Cynigiwyd y Cyng. Sharon Parry, eilio Cyng. G.O. Jones. )

**4.** **Materion yn codi o'r cofnodion.**

4.1 Cae Chwarae: Roedd Cyng. Celfyn Furlong wedi casglu'r fainc bicnic a byddai'n ei gosod cyn gynted â phosibl. Cytunodd Cyng. Gareth Thomas i gwrdd â'r contractwr i drafod gwaith ar y ffiniau a'r gwynebau diogelwch am 6pm ddydd Iau 2010.2022.

4.2 Problemau parcio Cymyran - roedd y problemau wedi tawelu gan fod tymor yr haf drosodd ond roedd dal angen datrys y materion parcio cyn y tymor nesaf.

4.3 Fferm Solar Traffwll: Gwahoddwyd sylwadau gan yr Ymgeisydd a'r Adran Gynllunio CSYM ynghylch penderfyniad Gweinidogion Cymru ar gais DNS/3247619 – Fferm Solar Elwy a gyhoeddwyd ar 14 Medi 2022. Cafodd y cais hwnnw ei wrthod gan y Gweinidogion er gwaethaf argymhelliad yr Arolygydd i caniatâu'r cynllun. Byddai'r clerc yn dosbarthu linc i'r penderfyniad hwnnw.

4.4 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion:
Dywedodd Cyng. Gwilym Jones fod yr holl arwyddion a'r cerrig oedd yn gwahardd mynediad i'r dwr ym Meddmanarch wedi eu symud.

**5.** **Penderfyniadau Cynllunio –** dim.

**6.** **Ceisiadau Cynllunio - dim**

**7.** **Adroddiadau Statudol**

7.1 Adroddiad Blynyddol– trafodwyd, diwygwyd a derbyniwyd yr adroddiad a baratowyd ar gyfer 2021/22 .

7.2 Cynllun Bio Amrywiaeth 2022/25- trafodwyd a cwblhawyd yr adroddiad drafft.

7.3 Cynllun Hyfforddiant Cyngor 2022/27- cafodd y cynllun drafft ei gwblhau a'i dderbyn.

**8. Materion ariannol**

Dywedodd y Clerc / SAC fod “Hysbysiad Cwblhau Archwiliad” wedi ei dderbyn am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Roedd barn yr Archwilydd yn ddiamod a doedd dim materion i'w tynnu at sylw'r Cyngor.  Byddai'r hysbysiad o'r Hawl i Arolygu'r Ffurflen Flynyddol yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl.

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1. 8.2022 i 30.9.2022 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc  a chopïau o'r cyfrifon.

Cyfrif cyfredol £26,917.48, Cyfrif De posit £3,940.64

**9. Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Medi.) | £371.81 | GMS – torri glaswellt | £168 |

Cytunwyd talu'r rhain ac  i newid rhif siec 101215 ei roi i Môn FM gan ei bod yn ymddangos bod y clerc wedi anfon y gwreiddiol i gyfeiriad anghywir.  (roedd y siec wedi dod i ben ers hynny).

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

**10. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.**

10.1 Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol

10.2 EFwletin Medrwn Môn

10.3 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2023

10.4 Hyfforddiant Un Llais Cymru

10.5 Aelodau Cyngor Tref/Cymuned Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn - Cytunwyd i enwebu Mr Iorwerth Roberts a Mrs Margaret Thomas fel Aelodau Cyngor Tref/Cymuned ar y Pwyllgor Safonau.

10.6 Adroddiad y Comisiwn Etholiadol

10.7 Ymgynghoriad Cyngor Sir Ynys Môn – Ein Dyfodol

10.8 Arweiniad ar Baratoi Cynllun Hyfforddiant Cyngor gan gynnwys Model Dempled ar gyfer Cynllun

**11. Adroddiadau Aelodau**

11.1 Adroddodd Cyng. Gwilym O. Jones ar gyfarfod cyntaf Cynghrair Bro Llynnoedd. Roedd y Gynghrair newydd yn cynnwys cymunedau Bodedern, Llanfair yn Neubwll a'r Fali. Etholwyd y Cyng. Neil Tuck (Cyngor Cymuned y Fali) a Mr Charles Thornhill fel Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, roedd y gynghrair yn dal i geisio penodi ysgrifennydd.

11.2 Gofynnodd Cyng. Gareth Thomas i Gynghrair Bro Llynnoedd am y posibilrwydd o gael diffibriliwr i Gaergeiliog, awgrymwyd fod y Neuadd y Pentref ynl lleoliad addas. Wedi hynnu gwnaeth Cyng. Gwilym Jones ymholiadau gyda'r Cyngor Sir gan awgrymu y byddai'r lle glas wrth Stad Rhen Ysgol yn well lleoliad. Dywedwyd wrth nad oedd gan y Cyngor Sir ddim wrthwynebiad mewn egwyddor ond roedd angen trafodaeth bellach ar y mater. Byddai'r clerc yn cysylltu gyda Swyddogion y Cyngor.

11.3 Mynegodd Cyng. Lowri Owen bryderon am faint o wastraff cŵn oedd i'w weld ar y palmant i lawr tuag at yr ysgol yn Llanfihangel yn Nhowyn. Cytunwyd y byddai'n edych os oed postyn addas i osod offer cyflenwi bagiau baw cŵn, yn y cyfamser byddai'r clerc yn cael gwybod beth oedd ar gael drwy'r Cyngor Sir.

**12. Cyfarfod nesaf – 15 Tachwedd 2022.**